

Heather Hancock  
Cadeirydd Bwrdd yr ASB  
Asiantaeth Safonau Bwyd  
Clive House  
70 Petty France  
San Steffan  
Llundain  
SW1H 9EX

14 Medi 2018

Annwyl Heather

### **Cyngor gan Bwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru i Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Faterion a drafodwyd gan y Pwyllgor: Medi 2018**

Prif rôl y Pwyllgorau Cyngori ar Fwyd yw rhoi cyngor i Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Yn ei gyfarfod ddoe, trafododd y Pwyllgor y materion canlynol a gaiff eu trafod gan y Bwrdd maes o law:

- Diweddariad ar Les Anifeiliaid
- Adroddiad Blynyddol ar Ddigwyddiadau a Gwydnwch
- Rheoleiddio Ein Dyfodol – Fframwaith Sicrwydd ar gyfer Strategaethau Arolygu Cenedlaethol Prif Awdurdodau a Chantau Nesaf Sicrwydd Preifat wedi'i Reoleiddio
- Dadansoddi Risg: Proses, Llywodraethu, Cyfathrebu
- Diweddariad ar Weithgareddau'r ASB ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd gan gynnwys Adroddiad ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cyngori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd (ACMSF)

Rwy'n ddiolchgar i Julia Williams, Steve Wearne, Phillip Randalls a Michael Jackson am ymuno drwy fideo gynhadledd a dros y ffôn, ac i Collin Willson a Nina Purcell a oedd yn bresennol i gyflwyno ac ateb cwestiynau gan aelodau a rhanddeiliaid a oedd yn y cyfarfod.

## Diweddariad ar Les Anifeiliaid

Ystyriodd y Pwyllgor y papur a oedd yn rhoi diweddariad ar weithgareddau'r ASB i sicrhau gwelliannau drwy'r rhaglen lles anifeiliaid "**Atal, Canfod, Gorfodi**" mewn lladd-dai yng Nghymru a Lloegr. Croesawodd y Pwyllgor y diweddariad ar y Cynllun Gweithredu ar Les Anifeiliaid a'r prif gyflawniadau hyd yn hyn. O ran defnyddio teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- nodi nad oes dulliau lladd heb stynio yng Nghymru;
- nodi bod cwmpas a defnydd rhesymol o deledu cylch cyfyng mewn lladd-dai (tua 99% yng Nghymru a Gogledd Iwerddon) ond bod angen gwaith pellach i ddeall a yw'r hyn sydd yn ei le yn effeithiol, yn gyfoes, yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol;
- croesawu'r cynllun i annog lladd-dai bach i osod ac uwchraddio i offer teledu cylch cyfyng, ond mae dal o'r farn y gallai fod angen deddfwriaeth i gydymffurfio'n llawn o ran defnyddio systemau teledu cylch cyfyng yng Nghymru.

Mewn perthynas â chyllid ar gyfer rheolaethau lles anifeiliaid, nododd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol yng Nghymru a Lloegr ac fe gododd bryderon. Byddai'r Pwyllgor yn annog trafodaethau cyflym pellach gyda'r partïon perthnasol yn ymwneud â sicrhau cyllid digonol ar gyfer rheolaethau lles anifeiliaid. Croesawodd y Pwyllgor y straeon data a nodwyd yn y papur a chefnogodd y gwaith sydd wedi'i wneud i leihau nifer y digwyddiadau lles mawr a difrifol. Yn hyn o beth, pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd rhannu data a defnyddio'r broses gyfeirio Chronos i ddeall ymhellach y materion lles sydd wedi digwydd ar y fferm neu wrth gludo'r anifeiliaid.

Gwnaeth y Pwyllgor sylw ar y posibilrwydd o ddefnyddio gwyddoniaeth ymddygiadol i gefnogi newid, yn enwedig mewn lladd-dai llai. Wrth groesawu'r camau cydweithredol a gymerwyd gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r materion lles anifeiliaid a ddigwyddodd naill ai ar y fferm neu wrth gludo'r anifeiliaid, nododd y Pwyllgor y byddai cysylltiadau cydweithredol angen cael eu cryfhau i sicrhau yr ymdrinnir â'r materion hyn a chael effaith ar draws y gadwyn fwyd yn ei chyfanrwydd.

I gloi, croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad cynnydd cadarnhaol gan nodi bod dal rhai meysydd y mae angen i asiantaethau partner fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys yr ASB.

## Adroddiad Blynyddol Digwyddiadau a Gwydnwch

Ystyriodd yr Aelodau y papur a oedd yn cynnwys adroddiad blynyddol digwyddiadau a gwydnwch yr ASB, yn dod i ben ym mis Mawrth 2018. Canolbwyntiodd y papur ar wella parhaus ac ymdrechion i adeiladu a chryfhau gwydnwch a gallu'r ASB i reoli risg wrth baratoi i Ymadael â'r UE.

Yn ei drafodaethau, cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- nodi'r camau a gymerwyd i gryfhau gallu'r Uned i ymdrin â digwyddiadau bwyd ac, yn hyn o beth, croesawu'r dull pedair gwlad a gymerwyd;
- croesawu'r trefniadau cydweithio agos rhwng Uned Digwyddiadau a Gwydnwch ac Uned Troseddau Bwyd yr ASB;
- nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud wrth baratoi i Ymadael â'r UE. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar senario dim bargaen yn ogystal â gwaith i gryfhau perthynas yr ASB ag ystod o wledydd. Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig bod yr ASB yn meithrin perthynas ag awdurdodau diogelwch bwyd cymwys yn Ewrop, ac yn fyd-eang, i ddatblygu dull o rannu gwybodaeth sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall;
- nodi'r ffaith y gall nifer o ffactorau – gan gynnwys tueddiadau newydd gan ddefnyddwyr, datblygiadau technolegol, newidiadau deddfwriaethol ac arferion samplu a phrofi – effeithio ar nifer y digwyddiadau a rhybuddion a gofnodir;
- nodi nad yw'n bosibl ar hyn o bryd i fesur y costau o ran gallu sy'n gysylltiedig â pharatoadau i Ymadael â'r UE;
- cydnabod y gallai'r pwysau ar awdurdodau lleol effeithio ar eu gallu i ymateb i'r gwaith o reoli digwyddiadau a galw cynnyrch yn ôl, a'u gallu i gyfrannu'n effeithiol at y gwaith hwnnw.

Wrth groesawu'r adroddiad a'i gasgliad, sef ei bod hi'n hanfodol bod y DU yn parhau i allu ymateb i ddigwyddiadau yn effeithiol ac yn gadarn, nododd y Pwyllgor pa mor bwysig yw cael mesurau monitro a gwerthuso cryf ar waith i alluogi'r ASB i ddangos ei heffeithiolrwydd.

## **Rheoleiddio Ein Dyfodol – Fframwaith Sicrwydd ar gyfer Strategaethau Arolygu Cenedlaethol Prif Awdurdodau a Chamau Nesaf Sicrwydd Preifat wedi'i Reoleiddio**

Ystyriodd y Pwyllgor y papur a oedd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed i archwilio Strategaethau Arolygu Cenedlaethol (NIS) y Prif Awdurdodau (PA) ac i ddatblygu Safonau NIS fel rhan o'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol (ROF). Hefyd, rhoddodd y papur ddiweddariad ar y camau nesaf mewn perthynas â sicrwydd preifat wedi'i reoleiddio.

Cyflwynwyd papur ar wahân yn y cyfarfod. Llythyr oedd hwn a dderbyniwyd gan Bennaeth Polisi Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH). Nododd y llythyr nifer o bryderon sydd gan CIEH mewn cysylltiad â strategaethau NIS. Yn dilyn y cyfarfod, mynegwyd pryderon hefyd gan Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru. Roedd y pryderon hyn yn cefnogi'r rhai a fynegwyd gan CIEH, yn codi nifer o bwyntiau ychwanegol, ac yn cynnig safbwynt manylach yng Nghymru. Nodwyd bod ymatebion ffurfiol i CIEH a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru yn cael eu paratoi, ac y byddent yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor.

Yn ei drafodaethau ar y papur ei hun, holodd y Pwyllgor am nifer y Prif Awdurdodau yng Nghymru. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod gan lawer o awdurdodau lleol yng Nghymru berthynas â Phrif Awdurdod, ac mae rhai ohonynt yn cwmpasu bwyd. Rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu yn dilyn ymgyrch hyrwyddo ddiweddar a gynhaliwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

O gofio'r pryderon a fynegwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ynghylch gorddibyniaeth ar sicrwydd trydydd parti, mae aelodau'n awyddus i ddeall canlyniad y gwaith diweddar a wnaed gyda chwe phartneriaeth prif awdurdod ar brosiect i brofi'r cysyniad o NIS ac i archwilio Prif Awdurdodau sy'n defnyddio data cydymffurfiaeth busnes, er mwyn dysgu beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod NIS yn ymwneud â bwyd yn llwyddiant. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd bod gwerthusiad annibynnol o'r prosiect wedi'i gynnal, a bod adroddiad o'r gwerthusiad ar fin cael ei gyhoeddi.

Gofynnodd y Pwyllgor am y goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â gallu'r ASB i asesu a chydabod cynigion NIS. Nodwyd ei bod hi'n anodd ymgymryd ag asesiad effaith heb strategaeth safon NIS ffurfiol ar waith. Fodd bynnag, wrth i NIS gael ei sefydlu, datganwyd y byddai adnoddau'n cael eu hasesu a'u hadolygu yng nghyd-destun ehangach cyllid cynaliadwy.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r newidiadau i'r weithdrefn reoleiddiol, yn enwedig mewn perthynas â haen gyntaf y sicrwydd rheoleiddiol a gyflwynir, yn effeithio ar strwythur ac adnoddau'r ASB. Hysbyswyd y Pwyllgor am y gwaith sydd ar y

gweill i sefydlu'r galluoedd y bydd eu hangen a pha newidiadau sefydliadol fydd eu hangen i gefnogi rôl yr ASB fel Awdurdod Cymwys Canolog a rheoleiddiwr modern ardderchog ac atebol.

Wrth bwysu a mesur beth oedd y papur yn gofyn i'r Bwrdd ei ystyried, dywedodd y Pwyllgor, er ei fod yn deall rôl bosibl Prif Awdurdodau ac NIS, y byddai'n gwerthfawrogi'r cyfle i fyfyrion ar y sylwadau a wnaed gan CIEH a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru, ac ymatebion yr ASB i'r rhain. Ymhellach, dywedodd y Pwyllgor y byddai'n gwerthfawrogi'r cyfle i ystyried yr adroddiad gwerthuso a baratowyd ar y prosiect a oedd yn profi'r cysyniad o NIS, cyn iddo roi cyngor i'r Bwrdd. Yn hyn o beth, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn cynnal trafodaethau pellach ar y mater cyn gynted â phosibl pan fo'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar gael.

### **Dadansoddi Risg: Proses, Llywodraethu, Cyfathrebu**

Gwnaeth yr Aelodau ystyried y papur a oedd yn nodi'r dulliau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu prosesau dadansoddi risg a gallu wrth baratoi i Ymadael â'r UE. Wrth nodi y bydd cyflwyno gweithdrefn reoleiddiol ddomestig effeithiol yn gofyn am gynnydd yn nifer y dadansoddiadau risg a gyflawnir gan yr ASB ar ôl Ymadael â'r UE, croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod yr ASB wedi derbyn adnoddau ychwanegol. Cynhaliwyd trafodaethau ar allu mewnol yr ASB i reoli risg ac fe'i hanogwyd i ddysgu y bydd ymarfer recriwtio diweddar yn cynyddu gallu'r ASB i ddadansoddi risg. Roedd y Pwyllgor yn hapus i ddysgu am lwyddiant yr ASB wrth recriwtio nifer o wyddonwyr dibynadwy a phrofiadol.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch sut y byddai gwaith asesu risg yn nodi unrhyw nodweddion a demograffeg wahanol sy'n benodol i'r sir. Nododd y Pwyllgor, er y bydd asesiad risg yn parhau i fynd i'r afael â phoblogaeth y DU yn ei chyfanrwydd, byddai gwybodaeth ategol am faterion penodol i'r sir yn dod o'r Arolwg Cenedlaethol o Ddeiet a Maeth, ac yn cael ei hadlewyrchu.

Wrth groesawu'r papur diweddar, daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:

- cytuno bod parhau i alinio dulliau'r ASB at ddadansoddi risg â'r safonau rhyngwladol hynny yn gam cadarnhaol;
- croesawu'r ymrwymiad i fod yn agored, yr ymrwymiad i'r Cod Ymarfer a'r bwriad i gyhoeddi argymhellion dadansoddi risg i sicrhau eu bod nhw ar gael i reolwyr risg;
- byddai'n awyddus i ystyried y fframweithiau a'r papur egwyddorion sy'n cael eu datblygu ac a ddefnyddir ar y gwahanol gamau o ddadansoddi risg.

## **Diweddariad ar Weithgareddau'r ASB ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd gan gynnwys Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr ACMSF**

Ystyriodd y Pwyllgor y papur a oedd yn rhoi diweddariad ar weithgareddau gwyddoniaeth yr ASB yn ymwneud ag ymwrthedd gwrthficrobaidd a'r gadwyn fwyd. Wrth ystyried y papur, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- croesawu'r adroddiad a'r argymhellion ar ymwrthedd gwrthficrobaidd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen ACMSF;
- nodi bod ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn bwyd yn faes cymhleth sy'n amlygu'r ffaith bod angen i'r ASB weithio gyda sefydliadau partner, gan gynnwys cyllidwyr eraill, i gyflwyno'r agenda wyddoniaeth ar ymwrthedd gwrthficrobaidd;
- cydnabod, oherwydd ei gymhlethdod, nad oes unrhyw reolaethau mewnforio ar ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn bwyd ar hyn o bryd, ond bod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn yn rhyngwladol;
- gwerthfawrogi'r ffaith y gall ymwrthedd gwrthficrobaidd effeithio ar bob rhan o'r gadwyn fwyd, gan gynnwys dyfroedd morol, a bod angen dull systematig cydlynol.

I gloi, cytunodd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn darparu sail dystiolaeth i lywio'r gwaith o ymgysylltu â phartneriaid eraill o ran ymchwil a gwyliadwriaeth o ymwrthedd gwrthficrobaidd. O ganlyniad, cafodd y Pwyllgor sicrwydd o ddysgu bod Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn bwriadu darparu dull cydlynol tuag at ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn perthynas â bwyd a'r amgylchedd.

### **Materion eraill**

Fel yr arfer, cyflwynais adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor a roddodd grynoded o'r trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd. Cafwyd trafodaethau ar ddatblygu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, Rheolaethau Llaeth Yfed Amrwd, yr Adolygiad o Ffatrioedd Torri a Storfeydd Oer, Adroddiad Hanner Ffordd y Rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol, Strategaeth Ryngwladol, ac Adolygiad o'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd. Yn fy adroddiad, gwnes i hefyd dynnu sylw at fy rhan yn y broses ddethol i benodi dau aelod newydd i'r Pwyllgor, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn fuan.


Roedd y Pwyllgor yn falch o dderbyn yr adroddiad gan Gyfarwyddwr dros dro Cymru, a oedd yn hysbysu am weithgareddau diweddar gan gynnwys trafodaethau a gynhaliwyd gyda Chadeirydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru, am nifer o gyfarfodydd gydag awdurdodau lleol ac am

bresenoldeb ASB Cymru yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol eleni. Rhoddodd yr adroddiad wybod am waith sydd ar y gweill i alinio Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru â'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd a'r ffaith bod ymgynghoriad ar y gweill ar ddiwygiadau i God Ymarfer Cyfraith Bwyd yng Nghymru er mwyn cyflwyno newidiadau gweithredol a nodwyd drwy'r rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol (ROF). Hefyd, cyhoeddodd yr adroddiad fod yr ASB yng Nghymru wedi llwyddo i gael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith ar gyfer Ymadael â'r UE.

Mewn diweddariad ar lafar, rhoddodd y Cyfarwyddwr dros dro wybod am y newidiadau sefydliadol sy'n cael eu gwneud ar draws yr ASB wrth baratoi i Ymadael â'r UE a gweithredu cyfnodau cyntaf ROF.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd ac at y Prif Weithredwr.

Yn gywir



pp Dr Ruth Hussey CB, OBE  
Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru  
(Wedi'i awdurdodi a'i lofnodi yn ei habsenoldeb)